

BWYD A DIOD CYMRU
FOOD AND DRINK WALES



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru



BWYD A DIOD CYMRU FOOD AND DRINK WALES



Is Sector Cynnyrch Bwyd Arall

Ym Mehefin 2015 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru werthusiad o Ddiwydiant Bwyd a Diod Cymru fesul is sector. Un o'r is-sectorau amlycaf oedd 'Cynnyrch Bwyd Arall'. Penderfynwyd fod angen archwilio'r is sector hon yn fanylach.

Mae'r adroddiad byr hwn yn rhoi rhagor o fanylion am weithgareddau'r is sector, ei gynnyrch a'i arbenigedd. Yn benodol, mae'r adroddiad yn cynnig ystadegau manwl am gyflogaeth a gweithgareddau busnes o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), tueddiadau'r defnyddwyr trwy adolygiad o ddata Kantar, a gweithgareddau busnes trwy amrywiaeth o astudiaethau achos.

Diffiniad o'r Is Sector Cynnyrch Bwyd Arall

Mae'r is sector 'Arall' yn cynnwys y naw cod Dosbarth Diwydiannol Safonol canlynol:

Cod a Disgrifiad Dosbarth Diwydiannol Safonol
10810 : Cynhyrchu siwgr
10821 : Cynhyrchu coco a melysion siocled
10822 : Cynhyrchu melysion siwgr
10831 : Prosesu te
10832 : Cynhyrchu coffi a chynnyrch i gymryd lle coffi
10840 : Cynhyrchu pupur a halen a sesnin
10850 : Cynhyrchu prydau a seigiau parod
10860 : Cynhyrchu homogenaidd a bwyd dietegol
10890 : Cynhyrchu cynnyrch bwyd sydd ddim mewn dosbarthiadau eraill



Gweithgaredd Busnes: Is Sector Cynnyrch Bwyd Arall

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r data diweddaraf ar unedau busnes lleol yn ôl Cod Dosbarth Diwydiannol Safonol yng Nghymru a'r DG. Mae 95 uned leol yng Nghymru sy'n oddeutu 5% o gyfanswm y DG. Mae cynhyrchu coco a melysion siocled yn ymddangos yn arbenigedd yng Nghymru, ar 7%.

Cyfrif Busnes y DG: Unedau Lleol y DG a Chymru, 2015

Cod a Disgrifiad Dosbarth Diwydiannol Safonol	Unedau Lleol 2015		
	DG	Cymru	Cymru fel % o'r DG
10810 : Cynhyrchu siwgr	10	0	0%
10821 : Cynhyrchu coco a melysion siocled	220	15	7%
10822 : Cynhyrchu melysion siwgr	200	5	3%
10831 : Prosesu te	25	0	0%
10832 : Cynhyrchu coffi a chynnyrch i gymryd lle coffi	50	0	0%
10840 : Cynhyrchu pupur a halen a sesnin	180	10	6%
10850 : Cynhyrchu prydau a seigiau parod	215	10	5%
10860 : Cynhyrchu bwyd homogenaidd a bwyd dietegol	105	5	5%
10890 : Cynhyrchu cynnyrch bwyd sydd ddim mewn dosbarthiadau eraill	740	45	6%
108: Cynhyrchu Cynnyrch Bwyd Arall (Cyfanswm)*	1,745	95	5%

*Sylwer: Mae'r data wedi'i rowndio i'r 5 agosaf. Efallai nad yw'r cyfanswm yn gyson â niferoedd yr is grwpiau oherwydd y rowndio.

Ffynhonnell: ONS

Niferoedd Unedau Busnes

- Mae'r siart cylch dros y dudalen yn dangos cyfran y busnesau yn ôl math yn 2015. Mae'r mwyafrif helaeth (50%) yn 'gynnyrch bwyd arall', sy'n cynnwys gweithgareddau busnes sydd ddim yn ffitio'n hwylus o fewn codau dosbarthu eraill y diwydiant.
- Mae 22% o'r busnesau ym maes melysion, yn cynnwys 17% (15 menter) sy'n cynhyrchu siocled.
- Nid oes mentrau coffi wedi'u cofnodi ers 2012, er bod pum menter wedi'u cofnodi yn 2010 a 2011.
- Gwelwyd twf mewn pupur a halen a sesnin; gan gynyddu o 5 i 10 yn 2013¹.
- Cofnodwyd 95 uned leol yn nata Cyfrif Busnesau'r DG ar gyfer Cymru yn 2015².

Meintiau Busnes o fewn yr Is Sector

- O ran maint y busnesau, mae'r mwyafrif yn rhai micro (63% neu 60 uned leol) gan gyflogi rhwng 0-9 o staff. Roedd 15 o fusnesau bach (10-49 o staff), 15 busnes canolig (50-249) a 5 busnes mawr, gyda phob un yn cyflogi dros 250 o staff.

¹ Sylwer fod y ddata wedi'i rowndio i'r 5 agosaf, a'i bod yn bosibl felly y gallai hyn fod yn ddim ond 1 menter ychwanegol.


² Mae unedau lleol yn cynnwys safleoedd lluosog sy'n cael eu gweithredu gan fentrau ac felly'n uwch na nifer y mentrau a gofnodwyd.

BWYD A DIOD CYMRU FOOD AND DRINK WALES



- Mae manylion yr is sector yn dangos fod y 5 uned fusnes mawr (+250 o staff) yn gweithredu o fewn yr is sector **prydau parod**.
- O ran yr unedau busnes canolig (50-249 o staff), roedd 5 yn cynhyrchu **melysion siocled** a 5 yn yr is sector **prydau parod**.
- O gymharu â'r DG, mae gan Gymru lai o gynhyrchwyr prydau parod a melysion siwgr na'r disgwyl (LQ unedau lleol o 0.9 a 0.5)³. Mae gan Gymru fwy o gynhyrchwyr siocled na'r disgwyl (LQ unedau lleol o 1.3).

Unedau Lleol Cymru yn ôl Dosbarth Diwydiannol Safonol 5 digid, 2015



Ffynhonnell: ONS. Nodyn: Cyfanswm yr unedau lleol: 95

Cyflogaeth⁴

- Roedd 5,300 yn cael eu cyflogi yn yr is sector Cynnyrch Bwyd Arall yng Nghymru yn 2014, 3% yn is na 2013 (ONS).
- Roedd 38% o'r swyddi (2,000) ym maes cynhyrchu **prydau a seigiau parod**, cynnydd o 3% ers 2013.
- Mae cyflogaeth ym maes **prydau parod** wedi amrywio dros y 5 mlynedd ddiwethaf. Yn dilyn cynnydd o dros 1,000 rhwng 2009 a 2010, cafwyd gostyngiad o 16% i 2,000 yn 2011 ac yna wedi aros yn eithaf cyson ar y lefel honno.
- Roedd 39% o'r swyddi (2,100) yn y categori '**Cynhyrchu cynnyrch bwyd sydd ddim mewn dosbarthiadau eraill**', gan ddal swyddi mewn cwmnïau oedd yn ei gweld yn anodd cysylltu eu

³ Mae'r Cyniferydd Lleoliad (Location Quotient - LQ) yn cyfrifo cynhoad yr adnoddau o fewn is sector o'i gymharu â strwythur yr adnoddau ledled y DG. Mae LQ=1 yr un fath a'r DG, <1 gyda chrynodiad llai; >1 gyda chrynodiad mwy.

⁴ Mae'r ffigurau cyflogi'n cael eu rownio i'r 100 agosaf i osgoi datgeliad.

BWYD A DIOD CYMRU FOOD AND DRINK WALES



gweithgareddau â'r system codio Dosbarth Diwydiannol Safonol. Mae'r swyddi yn y categori hwn wedi dyblu ers 2009, gyda thwf cyson bob blwyddyn.

- Roedd 700 yn cael eu cyflogi yn yr is sector **melysion**, 9% yn is na'r flwyddyn flaenorol. Cafwyd twf cryf mewn cyflogaeth ym maes cynhyrchu melysion o 2010 (500 swydd) i uchafbwynt o 800 yn 2013, cynnydd o dros 45%. Cafwyd gostyngiad i'r lefel bresennol, ond gan barhau draean yn uwch na 2010. Mae'r is gategori yn cyfrif am 14% o'r swyddi.
- Mae'r swyddi ym maes **papur a halen a sesnin** yn cyfrif am 7% o gyflogaeth Cynnyrch Bwyd Arall. Mae'r gyflogaeth wedi tyfu'n gyson ers 2013, gyda 200 swydd ychwanegol ers 2009. Serch hynny, mae'r data diweddaraf yn dangos gostyngiad o 22% o 500 i 400.

Cyflogaeth Cymru o'i gymharu â'r Deyrnas Gyfunol⁵

- Mae cymharu swyddi Cymru o fewn y categorïau'r is sector Arall â ffigyrau Prydain yn dangos fod gan Gymru gyflogaeth gymharol isel (LQ<1) o fewn y maes melysion⁶ a phapur a halen (LQ 0.73 a LQ 0.85)
- Mae gan Gymru gyfran uwch o swyddi o fewn cynnyrch bwyd homogenaidd (er bod cyfanswm y swyddi'n isel) a chyfran uwch o swyddi ym maes prydu parod (LQ 2.17 a LQ 1.27)
- Mae gan Gymru gyfran uwch o swyddi sydd ddim mewn dosbarthiadau eraill na'r DG, gyda LQ o 1.15.
- Nid oes fawr ddim gweithgaredd yng Nghymru yn is grwpiau cynhyrchu siwgr a phrosesu coffi a the.

Adolygiad Cyfeirlyfr

- Mae chwiliad o'r cwmnïau cyfyngedig yn dynodi 99 cwmni Cymreig yn yr is sector 'arall' ac 11 cwmni arall, sydd ddim o Gymru, ond sy'n gweithredu yng Nghymru. Mae hynny'n gyfanswm o 110 cwmni.
- Mae 52 yn gwmnïau newydd a sefydlwyd ers 2010 a 20 ers 2014.
- Roedd gan 23 werth net⁷ o dros £500k yn 2014 ac roedd gan 11 werth net o dros £1m. Roedd gan 37 werth net o lai na sero, sy'n amlinellu maint a sefyllfa ariannol enbyd nifer o gwmnïau.
- Y cwmnïau hynaf yw'r rhai mwyaf - roedd 32 cwmni wedi'u sefydlu cyn 2001, ac roedd ganddynt werth net cyfun o £78m yn 2014. O'i gymharu, mae gan y 78 cwmni a sefydlwyd yn neu ers 2001 werth net cyfun o £9.1m, gyda bron i hanner hynny mewn un cwmni.
- Cyfanswm cyflogaeth y cwmnïau a ddynodwyd oedd 4,700, er nad yw cwmnïau llai yn datgan y ffigyrau. Mae hyn yn agos at amcangyfrif yr ONS uchod.

⁵ Mae Cyniferydd Lleoliad (LQ) yn mesur crynhoad y swyddi yn yr is sector o'i gymharu â ffigwr y DG. Mae LQ o fwy nag 1 yn golygu crynhoad uwch a llai nag 1 yn golygu crynhoad is

⁶ Dan ddylanwad melysion siwgr. Mae cyflogaeth ym maes melysion siocled yn LQ=1.08

⁷ Mae gwerth net yn cynnig cipolwg ar gyfanswm asedau llai dyledion, ac yn awgrymu maint ac iechyd ariannol cwmni.

BWYD A DIOD CYMRU FOOD AND DRINK WALES



Gweithgaredd Adwerthu: Is Sector Cynnyrch Bwyd Arall

Data Kantar⁸

- Mae gan yr is sector 'arall' werth adwerthu o £16.6bn yn y DG a £1.01bn yng Nghymru.
- Mae'r is sector yn cynnwys 12 categori adwerthu Kantar amrywiol sy'n cynnwys Cyfleus Oer, Melysion i Fynd Adref, Diodydd Poeth, Coginio Cartref Sawrus, a Choginio Cartref Melys. Mae'r 5 categori yn cyfrif am 80% o werthiant yr is sector yn y DG ac 81% yng Nghymru.
- Mae'r is sector wedi gweld twf blynyddol o 1.7% yn y DG, sy'n cael ei yrru'n bennaf gan chwyddiant prisiau/cwsmeriaid yn dewis cynnyrch drytach. Yng Nghymru, mae twf tebyg o 1.8% hefyd yn cael ei yrru'n bennaf gan newid ym mhris yr uned.
- Y gwariant ar wahanol gategoriau hyd at Fai 2015 yng Nghymru oedd:
 - Prydau parod (oer ac wedi rhewi) £216m, i fyny o £203m yn y 12 mis blaenorol.
 - Melysion siocled yr un fath ar £161.3m.
 - Melysion siwgr £43.9m.
 - Coginio cartref melys £87.9m, 2.4% yn llai.
 - Cyffraith £10.5m, 1.5% yn llai.
 - Picl, siytni a relish i lawr i £5.6m o £6.4m yn 2013.
- Y categoriau sy'n gyrru twf y DG yw Cyfleus Oer, Diodydd Poeth, Pecynnau Brecwast, Carbohydradau Sawrus a Melysion wedi Rhewi. Yng Nghymru, Cyfleus Oer, Diodydd Poeth, Coginio Cartref Sawrus, Pecynnau Brecwast a Charbohydradau Sawrus sy'n gyrru twf.
- Mae gan Gymru gyfran o 6.1% yn yr is sector Arall, sydd ychydig yn uwch na Chyfanswm Bwydydd ar 102 drwyddi draw.
- Mae Cymru'n gwerthu llawer mwy na'r disgwyl yn y Sectorau 'Arall', Prydau Parod wedi'u Rhewi, Melysion wedi'u Rhewi, Melysion i fynd Adref, Diodydd Poeth, a Phecynnau Brecwast.

Categori	Mynegai V Cyfanswm Gwerthiant Bwyd Cymru
Arall	134
Parod wedi'u Rhewi	126
Melysion wedi'u Rhewi	116
Melysion i fynd Adref	107
Diodydd Poeth	107
Pecynnau Brecwast (dim grawnfwyd)	104
Coginio Cartref Melys	103
Coginio Cartref Sawrus	102
Carbohydradau Sawrus	97
Cyfanswm Pupur a Halen	97
Parod Oer	95
Tun	90
Cyfanswm	102

Ffynhonnell: Dadansoddiad data Kantar Mai 2015

⁸ Mae holl ddata Kantar ar gyfer y flwyddyn hyd at Fai 2015.

BWYD A DIOD CYMRU FOOD AND DRINK WALES



Mae rhagor o fanylion isod am bum prif ran yr is sector arall – Cyfleus Oer, Melysion i Fynd Adref, Diodydd Poeth, Coginio Cartref Sawrus a Choginio Cartref Melys

Cyfleus Oer

- Yn cynnwys Prydau Parod, Pastai Sawrus, Pwdinau, Dips, Saws Coginio, Pate a Phâst, Llenwad Brechdanau, Cawl, Olewydd, Llysieuol ac eraill.
- Yn werth £5.5bn yn y DG a £315m yng Nghymru, gyda thwf o 4.1% a 4.7%.
- Mae Cyfleus Oer yn tanberfformio yng Nghymru gyda mynegai o 95 ar gyfer gwerthiant adwerthu yn erbyn cyfanswm Gwerthiant Bwyd.
- Mae'r chwe elfen isod yn cyfrif am 90% o werthiant y DG a 95% o werthiant Cymru. Dips oer sydd â'r twf cryfaf - +9% yn y DG a +7% yng Nghymru

Dadansoddiad Cyfleus Oer	Cymru	DG
Prydau Parod	£163m	£2.8bn
Pastai Sawrus	£62m	£1.06bn
Pwdinau	£42m	£703m
Dips	£7.4m	£161m
Llenwad Brechdanau	£7.1m	£126m
Cawl Ffres	£5.2m	£122m
Cyfanswm	102	

Tueddiadau: Mae'r Categori Cyfleus Oer yn cael ei ddominyddu gan Frand yr Adwerthwr. Dros yr 20 mlynedd ddiwethaf, mae'r twf wedi bod yn anferth. Yn fwy diweddar, mae'r sector wedi'i rannu wrth i adwerthwyr greu cynnyrch i gwrdd ag anghenion siopwyr o fewn y cynnyrch 'da, gwell, gorau'. Er hynny, gwelwyd pwysau cynyddol ar bris a rhywfaint o greu nwyddau (commoditisation). Mae hyn wedi rhoi lle i frandiau lle mae gwahaniaeth i'w nodi, e.e. 'gwirioneddol nodweddiadol, premiwm-uwch neu iachach'.

Ym maes Prydau Parod, bu lansiad y brand prydau parod hynod ffres Scratch a'r brand premiwm-uwch Charlie Bighams yn llwyddiant. Gyda Phastai Sawrus, mae nifer o frandiau cenedlaethol, e.e. Ginsters wedi sefydlu safle premiwm cadarn, ond mae nifer o frandiau eraill megis Pukka Pies, Peters, Pork Farms a Walls. Mae'r brandiau hyn wedi dod o'r maes cyfleus, ac wedi trosglwyddo'u cryfder ymhlith cwsmeriaid i restrau adwerthwyr lluosog sylweddol credadwy. Yng Nghymru, mae brandiau cryf megis Village Bakery a Welsh Pantry.

Yn y category cawl, rydym wedi dechrau gweld dylanwad y tuedd 'arbennig o iach', boed yn fwy naturiol/ffres neu'n 'well ar eich lles/ddim mor ddrwg'. Bu lansiad SkinnyLicious, brand cawl ffres naturiol, kalori isel, yn llwyddiant newydd. Mewn pwdinau, mae GU wedi ail-osod y safon ar gyfer pwdinau premiwm, a chreu lefel newydd o foethusrwydd. Ym maes Dips, mae Sabre yn gryf yn yr elfen nodweddiadol.

Melysion i Fynd Adref

- Yn cynnwys Melysion Siocled, Melysion Siwgr a Melysion Gwm i fynd adref.
- Yn werth £3.3bn yn y DG a £210m yng Nghymru.
- Melysion Siocled yw'r sector mwyaf, yn werth £2.4bn a £161m yng Nghymru, sy'n gyson flwyddyn ar ôl blwyddyn.
- Melysion Gwm i fynd adref yw'r sector lleiaf, gwerth £89m yn y DG a £5.3m yng Nghymru, ond sy'n tyfu'n gryf, i fyny 4% yn y DG a 22% yng Nghymru.

BWYD A DIOD CYMRU FOOD AND DRINK WALES



Tueddiadau: Mae bwyta **siocled** wedi gweld symud o'r tu allan i'r cartref i rannu yn y cartref, wrth i ddefnyddwyr leihau lefel bwyta yn y dydd a dewis bagiau rhannu ar y sofffa. Mae rhywfaint o'r bwyta adref wedi symud i **felysion naturiol**. Lanswyd y brand cyntaf, Fruit Bowl, dros ddegawd yn ôl, ac ers hynny mae eraill wedi'u lansio, megis Bear a Nakd ac mae'r sector yn tyfu'n gryf.

Gall y drafodaeth am siwgr effeithio ar ragolygon wrth i hyd yn oed y brandiau ffrwythau naturiol fel Bear gael eu dynodi'n rhai lefel siwgr uchel, er yn siwgr naturiol. Mae cwestiwn os bydd defnyddwyr yn gweld pob siwgr yr un fath, neu'n ystyried siwgr naturiol a siwgr coeth mewn ffordd debyg i fraster dirlawn ac annirlawn. Y brandiau sydd â gwerthoedd cryf o ran maeth ac sy'n cynnig trêr fydd y rhai yn y sefyllfa orau i dyfu.

Yn ddiddorol, mae **melysion siwgr** hefyd yn tyfu, ond mae'r siwgr yma wastad wedi bod yn amlwg – mae cwsmeriaid yn gwybod ei fod yna. Ymddengys mai cynnyrch lle mae'r siwgr wedi'i guddio sy'n gweld anhawster.

Diodydd Poeth

- Yn cynnwys Coffi Parod, Choffi Hylif a Mâl a Ffa, Te a The Llysieuol.
- Yn werth £1.74bn yn y DG a £111m yng Nghymru.
- Yn tyfu'n gynt na chyfanswm bwydydd ar +1.8% yn y DG a 2.2% yng Nghymru, gyda'r twf yn cael ei yrru gan ddewis cynnyrch drytach.
- Mae'r sector coffi parod yn werth £823m a £54m yng Nghymru, mae'r sector te yn werth £654m a £41m yng Nghymru, a'r sector Hylif a Mâl a Ffa Coffi yn werth £271m a £15m yng Nghymru.

Tueddiadau: symud sylweddol tuag at gynnyrch premiwm dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r amrywiaeth **Te** wedi cynyddu'n sylweddol. Mae te llysieuol, ffrwythau, gwyrdd a the blas yn tyfu'n gryf, ar draul te du arferol. Mae Twinings wedi bod ar flaen y gad gyda'r twf, yn gyntaf wrth gael siopwyr i fynd am gynnyrch gwell ac yna am amrywiaeth. Mae brandiau'r brif ffrwd bellach yn mentro i sectorau newydd, e.e. PG Tips i amrywiaethau premiwm te du a Tetley i de â blas neu swyddogaeth benodol, megis Tetley Supergreen Tea Immune.

Ym maes **Coffi** mae ffrwydrad y peiriant coffi yn y cartref wedi gweld y sector pod coffi'n dod yn sector gwerth dros £100m gan gyfrif am 10% o gyfanswm y Coffi. Gyda lefel y peiriannau mewn cartrefi yn 12% o'i gymharu â 50-60% yn Ffrainc/yr Almaen, mae lle i dyfu eto. Mae'r twf hwn hefyd yn un cynyddol, gan fod y sector coffi parod yn parhau'n gyson.

Coginio Cartref Sawrus

- Yn cynnwys saws coginio, cynhwysion ethnig, perlysiâu a sbeis, Rhin Cig, Stwffin Paced, Halen, Cymysgedd Melys a Sawrus a Finegr.
- Yn werth £1.67bn yn y DG a £100m yng Nghymru.
- Mae Coginio Cartref Sawrus wedi gweld twf o 0.8% yn y DG, a 2.8% yng Nghymru wedi'u yrru gan gynydd mewn cyfaint. Mae sgôr mynegai Cymru ar gyfer Coginio Cartref Sawrus yn 102 yn erbyn cyfanswm bwydydd.

BWYD A DIOD CYMRU FOOD AND DRINK WALES



- Y pedwar sector mwyaf yw Saws Coginio, sy'n werth £755m yn y DG a £46m yng Nghymru; Rhin Cig £361m yn y DG a £22m yng Nghymru; Cynhwysion Ethnig £179m yn y DG a £9.7m yng Nghymru a Pherlysiâu a Sbeis £169m yn y DG a £9.5m yng Nghymru. Mae'r rhain yn cyfrif am 87% o werth gwerthiant y DG a 88% yng Nghymru.
- Mae Cynhwysion Ethnig, Perlysiâu a Sbeis a Rhin Cig yn tyfu'n gryf yn y DG a Chymru.
- O ran gwerth, mae Saws Coginio i lawr -1% yn y DG ac i fyny ychydig yng Nghymru +1%, ond mae'r cyfaint i fyny yn y DG a Chymru sy'n awgrymu dachwyddiant yn y sector.

Tueddiadau: Mae'r tuedd cyffredinol tuag ar goginio o'r cychwyn, bwydydd newydd a nodweddiadol wedi gyrru Cynhwysion Ethnig, Perlysiâu a Sbeis a Rhin Cig. Mae tair menter wedi helpu i yrru hyn:

- Mae Maggi So Juicy wedi lansio dull coginio mewn bag, lle rydych yn ychwanegu cig at fag sydd eisoes yn cynnwys sbeis.
- Mae bwydydd Old El Paso wedi arloesi yn y sector Tex Mex gyda pheccynnau, saws a sbeis i gyd-fynd â'i gilydd.
- Mae Knorr wedi adfywio'r farchnad stoc gyda'u Stock Pots, sydd wedi'u dilyn gan botiau greffi.

Coginio Cartref Melys

- Yn cynnwys Pwdin Sbwng, Melysyddion Artiffisial, Pobi Cartref, Cymysgedd Ysgytlaeth, 'Mincemeat', Pwdin a Chwstard, Eisin, Siwgr, Surop a Threcl a Jeli.
- Yr adran fwyaf yw pobi cartref, sy'n werth £482m yn y DG a £28m yng Nghymru, Siwgr sy'n werth £289m yn y DG a £19.2m yng Nghymru, Pwdin a Chwstard sy'n werth £226m a £14m yng Nghymru a Melysyddion Artiffisial £67m a £4m yng Nghymru.
- Mae'r rhain yn cyfrif am 87% o'r gwerthiannau yn y DG a Chymru.

Tueddiadau: Dim ond **Pobi Cartref** sy'n dangos twf cryf o 4% yn y DG a 5% yng Nghymru. Mae siwgr yn gweld gostyngiad sylweddol, -17% yn y DG a -16% yng Nghymru. Mae pobi cartref wedi gweld adfywiad yn ddiweddar yn sgil cyfres Great British Bake Off y BBC, gyda rhagor o aelwydydd yn pobi gartref. Serch hynny, roedd y twf y llynedd yn sgil symud tuag at gynnyrch drytach yn hytrach na phrynu rhagor, gan fod cyfanswm cyfaint 1% yn is yn y DG a heb newid yng Nghymru. Mae Dr Oetker wedi arloesi yn y farchnad addurno, gan annog siopwyr i wario mwy ac ychwanegu gwerth trwy brynu addurniadau hardd ond hawdd ar gyfer pobi gartref.

Mae Llywodraeth y DG yn annog defnyddio **Llai o Siwgr** i ymdrin â phroblemau iechyd. Dyma'r mater iechyd amlycaf yn y cyfryngau. Mae symud sylweddol wedi bod yn yr ymwybyddiaeth o'r niwed y gall siwgr ei wneud iechyd. Nid oes syndod felly fod gwerth Siwgr i lawr 17% yn y DG a 16% yng Nghymru. Serch hynny, dydi'r cyfaint ond wedi gostwng 5% yn y DG a 3% yng Nghymru gyda'r rhan fwyaf o'r gostyngiad mewn gwerth yn sgil dachwyddiant.

Stevia yw un o'r rhiniau planhigion naturiol siwgr is cyntaf mae cwmnïau'n ei ddefnyddio i gynnal melyster a lleihau calorïau. Mae Tate and Lyle wedi lansio Siwgr gyda Stevia sy'n cynnwys hanner calorïau siwgr arferol. Mae'n debygol y bydd mwy o'r math yma o'n amlygu wrth i gwmnïau geisio cael y melyster heb y calorïau.

BWYD A DIOD CYMRU FOOD AND DRINK WALES



Astudiaeth Achos: Cwmniau yng Nghymru

Astudiaeth Achos Cwmni Mawr

Cafodd OP Chocolates, o Ddowlais, Merthyr Tydfil, ei sefydlu yn 1990 ac mae'n cyflogi 415 o staff. Yn 1991, fe'i prynwyd gan Groupe Cemoi o Ffrainc. Mae OP Chocolates yn arbenigo mewn cynhyrchu waffer a bisgedi brand yr adwerthwr a bariau siocled a bariau malws a waffer. Dyma un o gwmnïau mwyaf Cymru yn yr is sector 'Arall' gyda throshiant o £43m yn 2014. Mae'r cwmni'n enghraifft dda o arbenigedd Cymru mewn melysion siocled.



Astudiaeth Achos Cwmni Arloesol

Sefydlwyd Bar Foods Ltd o Gasnewydd yn 1987 a bu dan berchnogaeth Gymreig tan ei brynu gan y Billington Group yn 2012. Mae'r cwmni'n brif gyflenwr cawl, saws a seigiau rysâit i dafarndai a bwytai, ac yn bodoli ers bron i 30 mlynedd. Dyma'r cwmni cyntaf i farchnata asennau barbeciw, ac i weld yr angen am saws wedi'i rannu i gyfrannau unigol. Gwerth net y cwmni yw £9.6m, ac mae'n cyflogi tua 250 o staff.

BAR FOODS

Create to Plate

Astudiaeth Achos Cymhwysedd Craidd

Mae gan Express Contract Drying Ltd safleoedd yng Nglyn Ebwy a Thregaron, gan arbenigo mewn sychu i greu blas a lliw naturiol ar gyfer y diwydiant bwyd a fferyllol. Mae'r cwmni'n hawlio i fod yn gwmni sychu mwyaf y sector bwyd yn y DG, a bellach wedi sefydlu gallu newydd i gyrraedd 6,500 tonnall y flwyddyn. Gan gyflogi tua 70 o staff, mae'r cwmni'n amcangyfrif y bydd yr ehangiad diweddar yn galluogi cynyddu trosiant i £3.5m.



Astudiaeth Achos Cwmni Cynhwysion

Mae PB Gelatins UK Ltd wedi bod yn rhan o'r grŵp cemegau rhyngwladol Tessenderlo ers 1964. Mae PB Gelatins yn gwneud cynnyrch gelatin ar gyfer gwahanol ddefnydd, yn cynnwys melysion, cynnyrch llaeth a phwddin a chynnyrch sawrus. Defnyddir hydrolisatau collagen mewn ychwanegiadau bwyd, bwydydd a diodydd maeth a chwaraeon, ac mewn bwydydd arbennig gyda mynegai glycemig isel neu i bobl sydd â chlefyd y siwgr. Mae'r cwmni o Rionda Cynon Taf yn cyflogi tua 70 o staff, mae ganddo drosiant o £28m, a gwerth net o £2.3m.



BWYD A DIOD CYMRU FOOD AND DRINK WALES



Cwmni Ymchwil Dwys

Sefydlwyd ANR Probake Ltd yn 2008, yng nghanolfan biowyddoniaeth Newcastle, gan ganolbwyntio ar ddatblygu bwydydd pob gyda maeth ychwanegol. Gyda llwyddiant ac er mwyn ehangu, symudodd y cwmni i'r Coed Duon yn 2011. Yn fusnes ymchwil dwys, mae ANR Probake yn ymchwilio i



gynwysyddion unigol o i'w budd o ran maeth, cyfnod silff, prosesu ac ati er mwyn datblygu cynnyrch bwyd maeth ychwanegol ar gyfer marchnadoedd megis maeth chwaraeon, maeth clinigol, bwydydd cytbwys i blant a'r henoed a diet paleo. Mae eu cynnyrch yn cynnwys bariau maeth, brownis, bisgedi, cacennau a myffins gyda'r prif ffocws ar y farchnad label preifat. Mae gan y cwmni werth net o oddeutu £660k.

Astudiaeth Achos Gwobrau Great Taste 2015

Mae nifer o gwmnïau wedi ennill nifer o wobrau Great Taste 2015 am eu cynnyrch. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys Miranda's Preserves, Footprint Coffee, CK Food and Drinks am eu Pad Prig Pao Sauce, CoalTown Coffee, Bim's Kitchen am fenyn cnau daear a'r saws Piri Piri, Black Mountain Gold Chocolate, Patchwork Traditional Foods am eu pate, a Halen Môn. Tra bo'r busnesau hyn yn llai na rhai o'r enghreifftiau blaenorol, maent yn helpu i ddangos ansawdd ac amrywiaeth cwmnïau bwyd 'arall' Cymru.



BWYD A DIOD CYMRU
FOOD AND DRINK WALES



www.llyw.cymru/bwydadiodcymru

bwyd-food@cymru.gsi.gov.uk

 [@bwydadiodcymru](https://twitter.com/bwydadiodcymru)